CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch Ddr Andras Iago – Ffon- 07778511672.
Chwefror 2018 *Rhif 083*

Dwn i ddim os ydych chi'n un sy'n dilyn pêl droed. Mi ydw i – ac er i ni symud i ran o'r wlad lle mae pawb (bron) yn dilyn clybiau Lerpwl a Manceinion, dwi'n parhau yn ffyddlon i ddinas Abertawe. Does dim bwriad i newid hynny ar hyn o bryd!

Un cwyn ym myd y bêl gron ar hyn o bryd yw bod clybiau'n newid eu rheolwyr yn rhy aml. Wedi cyfres o ganlyniadau gwael clywn fod perygl i reolwr golli ei swydd. Yn amlach na pheidio daw cyfres o resymau oddi wrth y wasg – fod y chwaraewyr wedi 'stopio chwarae drosto', neu fod yna golli hyder yn ei allu fel arweinydd. Yn reit aml, bydd cael rheolwr newydd yn symbylu'r clwb i gyd-dynnu'n well, ac am gyfnod byr bydd canlyniadau'n gwella. Ychydig iawn sydd wedi newid mewn gwirionedd – ond mae cael pâr o ddwylo newydd ar y llyw yn gallu trawsnewid pethau mewn amser byr iawn.

Yn un o'n hoedfaon dydd Sul diwethaf buom yn canu emyn 748, sy'n sôn am roi'n hyder yn Nuw. Mewn rhyw ffordd mae'n perthynas ni â Duw yn debyg i berthynas chwaraewr pêl droed â'i reolwr. Mae'r Beibl yn ein hatgoffa y gallwn ymddiried yn Nuw i roi cyfeiriad i'n bywydau: fo, wedi'r cyfan, wnaeth ein cynllunio a'n creu i fwynhau ei gwmni ac i fyw er ei glod. Gallwn ymddiried ei fod yn gwybod beth sydd orau beth bynnag yw'r sefyllfa. Daw hynny'n fwy amlwg byth i ni trwy'r hyn wnaeth Iesu trosom – daeth i'r byd i'n hachub o'n pechodau ac i ddod a ni i berthynas iawn â Duw. Fe yw'r rheolwr gorau posib arnom ni, ac ar ein heglwysi. Ydyn ni'n barod i roi lle iddo, ac i roi'n hyder ynddo? Ydyn ni'n barod iddo gymryd Ei le?

DYDDIADUR

Cangen Genhadol Chwiorydd
Henaduriaeth Dyffryn Clwyd
Sasiwn Gwanwyn 2018
Cynhelir yr uchod ym Methania, Rhuthun ar Fai 2il.
Bydd angen codi oddeutu £1000 yw chynnal. Gan bod pedair bro o fewn yr Henaduriaeth, golyga hyn £250 y fro. Mae deg eglwys ym mro Dinbych, felly, disgwyliwn £25, yr eglwys, yn ychwanegol at y Casgliad arferol.

Gobeithio y rhowch sylw i'r mater, ac y byddech yn trefnu yn eich eglwysi sut i godi'r arian.

Diolch yn fawr iawn.

Pamela Lloyd Gaynor Prew
(Cynrychiolwyr bro ar y pwyllgor uchod)

RHAGHYSBYSIAD

Nos Sul 18fed Mawrth 2018
Cyngerdd yng Nghapel y Pentre
gyda Côr Cytgan Clwyd

Astudiaeth Feiblaidd y Fro

Croeso cynnes i bawb i ddod i'n hastudiaeth Feiblaidd! Ar hyn o bryd rydym yn edrych drwy Lyfr yr Actau gyda'n gilydd, sy'n adrodd stori gyffrous yr Eglwys Fore. Byddwn yn cwrdd deirgwaith ym mis Chwefror.
7/02/18, 1:30 y.p
21/02/18, 1:30 y.p.
28/02/18, 1.30 y.p.

Cwrs Darganfod Cristnogaeth

Beth yw ystyr bywyd? Pam ydym ni yma? Oes yna Dduw? Pwy yw Iesu?

Ar ddiwedd mis Chwefror byddwn yn cychwyn cwrs 'Darganfod Cristnogaeth'. Mae hwn yn gwrs wythnosol sy'n para am saith wythnos, ac mae'n rhoi cyfle i drafod rhai o gwestiynau mawr bywyd mewn awyrgylch anffurfiol. Bydd swper yn cael ei ddarparu ar y noson.

Bydd y sesiwn gyntaf yn cael ei chynnal yn Glasfryn, Gellifor ar y 21ain o Chwefror am 7 y.h. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu cysylltwch â mi ar 07778511672. Croeso cynnes i bawb!

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Chwefror 4
2.00 – Parch Thomas Evans Williams, Henllan
Dydd Sul, Chwefror 11
10.00 – Oedfa'r Fro yn Capel y Pentre, Llanrhaeadr
Dydd Llun, Chwefror 12
12.00-1.00 – Cinio Cynnil yn y Festri
Croeso cynnes I bawb
Dydd Sul, Chwefror 18
9.45 – Parch Andras Iago
Dysdd Sul, Chwefror 25
10.00 – Mrs Enyd Davies, Eglwys Bach

BRWCWS

Dydd Sul, Chwefror 4ydd
Ysgol Sul am 10.00
Mr Dewi Williams am 2.00
Dydd Sul, Chwefror 11eg
Oedfa'r Fro
Dydd Sul, Chwefror 18ed
Ysgol Sul am 10.00
Mr Tudur Hughes am 2.00
Nos Fercher, Chwefror 21ain
Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws am 7.00 yn Festri'r Fron.
"Wyau Lliwgar Llainwen" – Carys Parry
Dydd Sul, Chwefror 25ain
Ysgol Sul am 10.00
Oedfa Gymun dan ofal y Parch. Andras Iago am 2.00

DYFFRYN

Dydd Sul Chwefror 4ydd
am 11.00 - Parch Andras Iago
Gwasanaeth Cymun gyda Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul oedolion am 10.30)
Emyn a Darllen - Veronica
Plant - Penybryn
Organ - Ann
Blodau - Glesni
NOS LUN Chwefror 5ed am 7.00
Y Gymdeithas - Noson yng Nghwmni Prysor Williams
Dydd Sul Chwefor 11eg
am 10.00 - Oedfa'r Fro
yn Capel y Pentre, Llanrhaeadr

Dydd Sul Chwefror 18fed
am 9.45 - Parch Nesta Davies
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul oedolion 9.15)
Emyn a Darllen - Myfanwy
Organ - Glenys
Blodau - Alma
NOS LUN Chwefror 19eg am 7.00
Y Gymdeithas - Noson ysgafn yng ngofal Iestyn
Dydd Sul Chwefror 25ain
am 9.45 - Dr Owain Edwards
Gwasanaeth gyda Capel Gellifor yn ymuno
Emyn a Darllen - Bethan
Plant - Alys/Leah
Organ - Iona
Blodau - Iona

GELLIFOR

Dydd Sul, Chwefror 4
9.45 – Gweinidog
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Glen
Offeryn – Nia
Blodau – Alwena
Dydd Sul, Chwefror 11
10.00 – Oedfa'r Fro – Capel y Pentre, Llanrhaeadr
Dydd Sul, Chwefror 18
11.00– Parch Nesta Davies
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – John
Offeryn – Richard
Blodau – Edwina
Dydd Sul, Chwefror 25 - yn Capel Y Dyffryn
9.45 – Dr Owain Edwards

FRON

Llywydd y Mis – Dilys Davies

Dydd Sul, Chwefor 4ydd
10.00 – Capel Mawr – Mr Dewi Williams
Dydd Sul, Chwefror 11eg
10.00 – Oedfa'r Fro – Capel y Pentre
Dydd Sul, Chwefror 18
10.00 – Fron – i'w drefnu
Dydd Sul, Chwefror 25ain
11.00 – Capel Mawr – Bugail

DIM OEDFA HWYROL YN YSTOD MIS CHWEFROR

Blodau – yn gyfrifol – Mrs Pamela Lloyd
18fed – Mrs Pamela Lloyd

Croesawu
18fed – Mrs Wendy Lloyd Jones

Cymdeithas y Chwiorydd Fron a'r Brwcws
Cynhelir ein cyfarfod nesaf Nos Fercher, Chwefror 21ain. Mi fydd Carys Parry yn dod atyom i son am "Wyau lliwgar Llainwen".

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Erfyl Williams ar enedigaeth ei wyres Mari Elenor ar noswyl Nadolig ac hefyd i Mrs Eirwen Pierce oedd yn 90 oed hefyd ar noswyl Nadolig ac yr ydym yn anfon ein cofion ac yn meddwl amdani wedi'r trychineb yn yr Hen Ficerdy, ac y mae ar hyn o bryd yn Cartref Rhos Wylfa, Rhyl

Y CAPEL MAWR A SEION

** DALIER SYLW

1. Ni fydd yna oedfaon hwyrol yn ystod mis Chwefror

2. Pan fo'r Gweinidog gyda ni bydd yr oedfa am 11am

Dydd Sul, Chwefror 4
10am - Y Capel Mawr - Mr Dewi Williams, Llannefydd

Dydd Sul, Chwefror 11
10am – Oedfa'r Fro yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr – Y Gweinidog

Dydd Mawrth, Chwefror 13
Noson Grempog am 7 o'r gloch yn Festri'r Capel Mawr dan nawdd Cymorth Cristnogol. Mwy o fanylion i ddilyn.

Dydd Sul, Chwefror 18
10am – Y Fron – I'w drefnu

Dydd Mawrth, Chwefror 20
Yr Aelwyd am 2pm – Dathlu Gŵyl Ddewi

Dydd Sul, Chwefror 25
**11am - Y Capel Mawr -Y Bugail - Oedfa Gymun

Dydd Mercher, Chwefror 28
Swper Gŵyl Ddewi - ar y cyd gyda Chymdeithas Ddiwylliadol Y Fron - yn Festri'r Capel Mawr am 7pm. Mwy o fanylion i ddilyn

Llywydd Y Mis: – Mr Stan Lyall

Casglyddion:-
Mr Glyn Jones
Mr Eric Howells

Organydd-
Chwefror 4 – Mrs Dorothy Rogers
Chwefror 25 - Mrs Catrin Warren

Blodau:-
Chwefror 4 - Mrs Kitty Williams
Chwefror 25 – Mrs Ann Lyall

Llestri'r Cymun
Mrs Kitty Williams
Mrs Dorothy Rogers

Aelwyd Capel Mawr

Cyfarfod o frethyn cartref oedd gennym ar Ragfyr 19, wedi ei drefnu gan Helena Williams. Roedd yn gyfarfod arbennig o dda , yn dathlu gwir ystyr y Nadolig. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Aelwyd, gyda amrywiaeth o ddarlleniadau, a Nerys Ann Roberts ac Ifor John Jones yn rhoi unawdau, a Doris Williams a Dorothy Rogers yn canu deuawd.
Mwynhawyd y te Nadolig ar ol, a'r cymdeithasu mor dderbyniol a'r wledd.
Diolchwyd i bawb fu'n cyfrannu at y cyfarfod ac at y bwyd, gan Tom Williams.

Ym mis Ionawr Jean Gwynne oedd ein gwraig wadd.
Dechreuwyd y Cyfarfod gan Helena Williams yn darllen emyn Nantlais a gweddi addas i ddechrau blwyddyn. Helena hefyd roddodd groeso i'r wraig wadd.
Cafwyd prynhawn arbennig yn ei chwmni yn clywed hanes ei phlentyndod a'r ardal lle gafodd ei magu. Roedd ei thad yn hannu o Borth Amlwch a'i Mam o Benbre, ond yn sir Fflint y mae Jean wedi treulio ei phlentyndod. Morwr oedd ei thad yn gweithio ar y llong "Point of Ayr" yn cario glo o Bwll y Parlwr Du i Iwerddon ac Ynys Manaw. Cawsom hanes y pwll fu'n cynhyrchu am gant a chwech o flynyddoedd. Diddorol iawn oedd hanes y ceffylau oedd yn cael eu defnyddio yno hyd 1968. Roedd gweithfeydd eraill yn yr ardal, fel y gwaith haearn, y chwarel ac yn ddiweddarach yr olew a'r nwy o Fae Lerpwl.
Diolchwyd i Jean Gwynne am brynhawn difyr iawn gan Tom Williams. Hefyd i Gwilym Luke Jones am helpu gyda'r ochr dechnegol, ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned.

Chwefror 20..... yr Aelwyd yn cyfarfod am 2 o'r gloch yng nghwmni Mr. John Eric Hughes Abergele i ddathlu Gwyl Ddewi. Te bach ar ol, croeso cynnes i bawb

PENTRE, PRION, GLYN

Dydd Sul, Chwefror 4ydd
9.45 - Prion - Mr Dennis Davies
Dydd Sul, Chwefror 11eg
9.45 - Pentre - Oedfa'r Fro gyda'n Gweinidog
Dydd Sul, Chwefror 18fed
11.00 - Pentre - Gweinidog
2.00 - Prion - Gweinidog
Dydd Sul, Chewfror 25ain
9.45 - Pentre - Gwasanaeth Gŵyl Dewi

COFION at Carys sydd wedi cael anffawd a torri ei garddwn, dymunwn wellhad buan iawn ac i bawb arall sydd heb fod yn dda yn ddiweddar
CYMDEITHAS – Nos Wener, 9fed Chwefror am 6.30, noson gartrefol o Yrfa Chwilod, croeso cynnes
CYDYMDEIMLO – Gyda Mrs Eluned Edwards Celynnog yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Ceri Lloyd yng nghartre's Plas, Llanrhaeadr, gynt o'r Wyddgrug, ein cofion atoch.

GLYN

Pnawn Sul, Chwefror 4ydd am 2.00
Cynhelir Oedfa gyda'r Parch Andras Iago yn Gwasanaethu

TREFNANT

Llywydd y Mis : BRYN ROBERTS

Dydd Sul,Chwefror 4ydd
10.00 Parch Tudur Rowlands 11.00 YSO
3.00 Parch Tudur Rowlands
Blodau : Catherine Lewis

Dydd Su, Chwefror 11eg
10.00 Oedfa'r Fro yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr

Dydd Sul, Chwefror 18fed
10.00 Parch Dafydd Rees Roberts 11.15 YSO
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Catherine Roberts

Dydd Sul, Chwefror 25ain
9. 45 Parch Andras Iago - gyda phaned i ddilyn
3.30 Parch Andras Iago
Blodau : Catherine Roberts

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd ar brynhawniau Llun wedi ail-ddechrau ar Ionawr 22ain 2018 rhwng 2.00 – 4.00 pm. Cyfle i gyfarfod i gyd-addoli, creu nwyddau ar gyfer elusennau a chymdeithasu dros baned. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Braf clywed fod y daith i'r Theatr yn Y Rhyl i weld y pantomeim wedi bod yn llwyddiannus - mae golwg mwynhad arnoch i gyd yn y llun. Edrychwn ymlaen y mis hwn at groesawu Bryn a Mair Roberts atom ar Nos Iau, Chwefror 15fed i rannu ychydig o gyfrinachau sut i baratoi ar gyfer y tymor garddio. Croeso cynnes i bawb.

CYFARCHION a DYMUNIADAU GORAU i bawb sydd wedi bod yn dioddef yn ddiweddar - cyfarchion arbennig i Gwenlys Jones sydd wedi treulio amser yn Ysbyty Glan Clwyd ond adre erbyn hyn. Daliwch ati Gwenlys a chofion atoch ac at bawb arall sydd wedi methu dod i'r gwasanaethau yn ddiweddar. Brysiwch nol atom.

Y Gymdeithas Lenyddol
Cawsom noson llawn o hŵyl a mwynhad ym mhantomeim 'Sleeping Beauty' ym mhafiliwn Rhyl.

NEGES NESTA

Bu tipyn o bethau yn digwydd cyn y Nadolig na wnes i eu cynnwys y mis diwethaf – fel y bu i'r Parch Andras Iago a'i deulu gyflwyno gwledd i ddiolch i'r criw fu'n mynychu'r Astudiaeth Feiblaidd yn eu cyfarfod diwedd y flwyddyn. Llawer o ddiolch iddo am fwydo'r Corff a'r enaid. Pan na wnewch chi ymuno yn 2018 ? Mae'n ddiddorol iawn!

Noswyl Nadolig roedd hi'n ben-blwydd ar Eurwen Pierce yng Nghartref Yr Hen Ficerdy ym Mhandy Tudur a chafodd ei sbwylio gan y teulu, a hyfryd oedd ei gweld mor hapus, cyn i'r Tan ddod a'i boendod. Nawr dymunwn bob bendith iddi ym Mhreswylfa y Rhyl.

Cinio Nadolig yn St Thomas

Ar ôl ein Gwasanaeth Fore Nadolig euthum i gasglu nifer i Eglwys Sant Thomas i gael cinio Nadolig penigamp. Gwerthfawrogodd y criw haelioni'r Fro, yn ogystal â phresenoldeb y Maer, adloniant gan Ddrymiwr, a chanu Carolau gyda mi'n cyfeilio! Os ydych chi ar eich pen eich hun dros y Nadolig cewch groeso mawr yno, neu gyfle i gael Pryd ar Glyd. Mawr yw'n diolch i'r tîm dan arweinyddiaeth Iona Thomas o Eglwys Sant Thomas.

Agor y Llyfr

Roedd dychwelyd i'r Gwaith Agor y Llyfr yn ein herio eleni gyda Stori Herod, ond cawsom lawer o'r disgyblion yn ein helpu. Byddai'n braf cael mwy o'r fro yn ein cynorthwyo gyda'r gwaith. Os oes gennych ddiddordeb helpu ar Fore Llun rhwng 8,30 a 10.00 byddem yn ddiolchgar iawn, ac fe gewch fendith di-ben-draw!

Newyddion rhifyn Mawrth o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Chwefror 16

e-bost :
meinididdos13@gmail.com
neu: 01745890417